

# **CYNGOR SIR BLAENAU GWENT** **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn er mwyn i chi wybod beth fydd Cyngor Blaenau Gwent yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol.

Blaenau Gwent yw Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth a'r manylion cyswllt yw:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Llys Einion  
Stryd yr Eglwys  
Abertyleri  
Blaenau Gwent  
NP13 1DB

Manylion Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant Blaenau Gwent yw:

Steve Berry  
01495 355080

[steve.berry@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:steve.berry@blaenau-gwent.gov.uk)

<b>Cyfarwyddiaeth:</b>	Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>Maes Gwasanaeth:</b>	Gwasanaethau Oedolion
<b>Manylion Cyswllt:</b>	Michelle Church, Rheolwr Gwasanaeth (Atal) michelle.church@blaenau-gwent.gov.uk
<b>Enw Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Cascade3d Connected Care Solutions

Eich hawliau GDPR a Diogelu Data yw:

- Mae gennych hawl i gael eich hysbysu am eich gwybodaeth bersonol
- Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol
- Mae gennych hawl i ofyn i ni unioni/cywiro eich gwybodaeth
- Mae gennych hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth gael ei dileu
- Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu prosesu/yr hyn a wnawn gyda'ch gwybodaeth bersonol
- Mae gennych hawl i ofyn am eich gwybodaeth mewn dull cludadwy
- Mae gennych hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth
- Mae gennych hawliau yng nghyswllt unrhyw benderfyniad awtomatig a wneir amdanoch
- Mae gennych hawl i wneud cwyn i awdurdod goruchwylio, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ico.org.uk)
- Gallwch hefyd wneud cwyn yn uniongyrchol i ni yn defnyddio'r manylion cyswllt yn yr hysbysiad hwn
- Os gwnaethoch roi eich caniatâd i ni, mae gennych yr hawl i'w ddileu ar unrhyw amser
- Byddwch hefyd yn cael copi o Hysbysiad Preifatrwydd Cascade3d Connected Care er gwybodaeth i chi



## **CYNGOR SIR BLAENAU GWENT**

### **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

<p>Sut wnaethom ni gasglu'r wybodaeth hon amdanoch chi?</p> <p>Fe wnaethom gasglu'r wybodaeth hon gennych yn uniongyrchol</p>
<p>Pa fathau o wybodaeth bersonol ydyn ni'n ei chasglu amdanoch?</p> <p>Enw Dyddiad geni Gwybodaeth feddygol – byddai hyn wedi ei chasglu cyn i ddyfais Cascade3d gael ei gosod ond mae'n bosibl y gall gael ei thrafod ar Cascade3d gan eich ffrindiau/teulu neu ofalwyr. Holiadur cyn cyfnod prawf yn ymwneud â gwybodaeth am sut y teimlwch am eich rhyngweithio cymdeithasol gyda theulu/ffrindiau a darparwyr gofal eraill Holiadur ar ôl cyfnod prawf am p'un ai ydych yn meddwl os yw Cascade3d wedi gwella eich rhyngweithio cymdeithasol gydag eraill a'ch llesiant cyffredinol.</p>
<p>Sut ydyn ni'n casglu'r wybodaeth yma?</p> <p>Ffurflenni ac asesiadau ar-lein a gaiff eu storio yn ein cronfa ddata gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o'r asesiad rydym ei angen i ddarparu gwasanaeth i chi. Gwybodaeth a roddwyd gennych chi mewn holiadur ar ddechrau'r cyfnod prawf ac unwaith fel adolygiad pan ddaw i ben. Gwybodaeth a roddwyd gennych chi mewn sgysiau wyneb i wyneb.</p>
<p>Mae'n rhaid i ni gael rheswm a sail gyfreithiol dros gasglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol</p> <p>Mae eich caniatâd gennym a gallwch ei ddileu ar unrhyw amser</p>
<p>Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol, gyda phwy fyddwn ni'n ei rhannu?</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gan gronfa ddata Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Blaenau Gwent h.y. WCCIS Mae gan staff Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Blaenau Gwent fynediad i hyn a nifer gyfyngedig o bobl eraill sydd â mynediad iddi.</li><li>• Caiff POB data arall ei wneud yn ddiennw cyn cael ei drosglwyddo a dim ond i adrannau eraill Cyngor Blaenau Gwent y caiff ei drosglwyddo, yn bennaf Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai</li><li>• Caiff data diennw ei rannu gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy (awdurdod arweiniol ar gyfer y prosiect hwn).</li><li>• Cascade3d Connected Care System – Dyma'r cwmni sydd wedi darparu ac sy'n berchen y Cascade3d.</li><li>• Fel rhan o'r prosiect, caiff data ar symud a defnydd cyfarpar ei gasglu gan Cascade3d yn eu Cascade3d Connected Care System. Caiff y data hwn ei storio mewn lleoliad diogel yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio Amazon Web Services (AWS). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei rhannu gyda Cascade3d Connected Care Systems a chaiff pob data personol ei chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'i storio o fewn rhwydwaith diogel y Cyngor.</li></ul>
<p>Byddwn yn storio a chadw eich data am gyfnod penodol, neu yn achlysurol os oes rheswm cyfreithiol gall fod na fyddwn byth yn dileu eich gwybodaeth.</p> <p>Yn unol â dogfen cadw cofnodion yr Awdurdod Lleol byddwn yn cadw eich cofnodion am 3 blynedd ar ôl 'symud, cofrestru neu atal gwasanaethau'.</p> <p>Sut ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?</p>



# **CYNGOR SIR BLAENAU GWENT**

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn trosglwyddo unrhyw ddata personol tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Dim ond astudiaethau achos dienw y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn eu hanfon at Cascade3d Connected Care Solutions a Llywodraeth Cymru.

Bydd Cascade3d yn anfon y data i'w cwmwl Amazon Web Services (AWS) yn y Deyrnas Unedig ond bydd wedi ei amgodio ac felly'n ddiogel. Ni chaiff cynnwys y galwadau fideo eu casglu ond dylid deall y caiff unrhyw negeseuon neu ffotograffau eu storio ar gwmwl AWS nes y cânt eu dileu gan Cascade3d Care Solutions. Byddai modd i chi ddileu'r cynnwys cyn hynny, ac yn deall fod yn rhaid i Cascade3d Connected Care Solutions ei dileu o fewn 30 diwrnod ar ôl hynny.



**Dyddiad Creu: 16.04.21**

**Dyddiad Cyhoeddi:**

**Fersiwn Rhif: Un**

**Dyddiad Adolygu:**

**Alyson Hoskins**  
**Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**

---